Haf 2013 - Rhifyn 8

Newyddion Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth

# Ein Bro



# Gair gan y Pennaeth

Annwyl Riant / Ofalwr

Hoffwn ddymuno'n dda i nifer o aelodau staff sy'n ein gadael ar ddiwedd y tymor. Mae Mr Guto Lynch yn symud yn ôl i'w gynefin yn Llangwm ger y Bala ar ôl bod ym Mro Ddyfi am flwyddyn, a Mr Iolo Jones yn ein gadael i wneud cwrs ymarfer dysgu mewn Daearyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth ym mis Medi.

Hoffwn ddymuno'n dda i Mr Jim Honeybill sydd yn ymddeol, felly hefyd Mrs Marie Helene Thomas, Mr Arwel Price a Mrs Eleri Jones. Mae Mrs Thomas a Mr Price wedi bod yn gwasanaethu'r ysgol ers dros ugain mlynedd a Mrs Eleri Jones ers 1974. Hoffwn ddiolch yn fawr iddynt oll am eu cyfraniad i addysg y plant a'u gwaith caled dros y blynyddoedd.

Ddiwedd y tymor bydd Mrs Cath Lloyd Williams a Mrs Henni Tremlett yn dechrau cyfnod mamolaeth a hoffwn ddymuno'n dda iddyn nhw hefyd.

Rydym wedi penodi nifer o athrawon newydd i lenwi'r bylchau a adawyd gan yr athrawon sy'n gadael. Penodwyd Mr Alwyn Jones a Miss Lowri Griffith yn athrawon Mathemateg; Miss Kelly Fleming i ddysgu Addysg Gorfforol i'r merched a Ms Elaine Currie i'r adran Saesneg. Hoffwn ddiolch yn fawr i Miss Jo Harbidge a Mrs Henni Tremlett am ein helpu am gyfnod yn dilyn ymadawiad Mr Huw Davies ddiwedd tymor y Nadolig.

Hefyd gwnaed rhai newidiadau i'r strwythur staffio ar gyfer mis Medi gyda Mrs Haf ap Robert yn cael ei dyrchafu i fod yn Uwch Arweinydd; Mr Llifon Ellis yn cael ei benodi'n bennaeth Adran y Gymraeg; Mr Tomi Rowlands yn gydlynydd TGCh; Miss Dela Wyn Jones yn Arweinydd Cynnydd a Lles Blynyddoedd 10 ac 11 a phenodwyd tri Arweinydd Dysgu sef Mrs Llio James, Mrs Eirian Davies a Mr Aled Myrddin.

Bydd canlyniadau Safon Uwch ac Uwch Gyfrannol yn cael eu cyhoeddi ddydd Iau 15 Awst a chanlyniadau TGAU ddydd Iau 22 Awst. Bydd staff yr ysgol ar gael i gynorthwyo gyda cheisiadau prifysgol ddydd Gwener 16 Awst ac i drafod dewisiadau ôl 16 ddydd Gwener 23 Awst. Hoffwn ddymuno'n dda i bawb gan obeithio y bydd y tywydd braf yma'n parhau drwy'r haf.

Cofion Cynnes

Dafydd M B Jones



# A word from the Headteacher

*Dear Parent/Carer*

*A number of staff are leaving Ysgol Bro Ddyfi at the end of August and I would like to take this opportunity to thank them for their service and wish them well in the future. Mr Guto Lynch who has been teaching at the school for a year is moving back to live in Llangwm near Bala. Mr Iolo Jones is leaving in order to start a teacher training course in Aberystwyth in September where he will train to teach Geography.*

*Mr Jim Honeybill is retiring after 15 years' service and I would like to wish him well. Mrs Marie Helene Thomas and Mr Arwel Price are also retiring after teaching at the school for more than 20 years whilst Mrs Eleri Jones has been teaching in Ysgol Bro Ddyfi since 1974. I would like to thank them all for their contribution to the education of the children over the years.*

*I would also like to wish all the best to Mrs Cath Lloyd Williams and Mrs Henni Tremlett who will start their maternity leave at the end of this term.*

*A number of teachers have been appointed to replace those leaving. We warmly welcome Mr Alwyn Jones and Miss Lowri Griffith to the Mathematics department; Miss Kelly Fleming to the Physical Education department and Ms Elaine Currie to the English department. I would like to thank Miss Jo Harbidge and Mrs Henni Tremlett for helping us following Mr Huw Davies's departure at Christmas.*

*There have been some changes to the staffing structure: Mrs Haf ap Robert has been promoted to the post of Senior Leader and Mr Llifon Ellis to Head of Welsh; Mr Tomi Rowlands has been appointed Skills and ICT Coordinator; Miss Dela Wyn Jones has been appointed Year 10 & 11 Progress and Well Being Leader and three new Learning Leaders have been appointed: Mrs Llio James, Mrs Eirian Davies and Mr Aled Myrddin.*

*The A Level & AS results will be released on Thursday 15 August from 9.00 and the GCSE results on Thursday 22 August. Members of staff will be available to support and offer advice with university applications on Friday 16 August and to discuss Post 16 options on Friday 23 August.*

*I hope you will all have a good break and that the sun continues to shine throughout the summer.*

*Best wishes*

*Dafydd M B Jones*





@BroDdyfi

# Mabolgampau 2013 / Sports Day

**Ar ddiwrnod braf ym mis Mai, cynhaliwyd mabolgampau Ysgol Bro Ddyfi 2013. Bu disgyblion yr Ysgol yn cystadlu yn frwdfrydig yn erbyn ei gilydd wrth ieisio sicrhau buddugoliaeth i'w timoedd; Llywelyn, Dewi a Glyndŵr. Cafodd sawl record ei chwalu ar y diwrnod gan gynnwys 1500m ac 500m a gafodd eu torri gan Juno Sanders. Wedi diwrnod o amrywiol chwaraeon o'r rhedeg i'r neidio, Llywelyn ddaeth i'r brig gyda'r capteiniaid yn cael codi'r gwpan dros eu tîm. Redd y diwrnod yn un llawn hwyl a lwyddodd i hybu chwaraeon yn yr ysgol a hoffem ddiolch i Mrs Eleri Jones a Mr Aled Myrddin am drefnu'r diwrnod a sicrhau bod y diwrnod yn un llwyddiannus tu hwnt.**
**Roedd hi'n drist iawn cael ar ddeall mai dyma oedd mabolgampau olaf Miss Eleri Jones, Mr Arwel Price a Mrs Marie Helene Thomas .**

**Sara Rees**

*On a beautiful day in May the school Sports Day was held. Many of the school's pupils competed for the success of their team: Llywelyn, Dewi and Glyndŵr. Many of the school's records were broken this year, two of which were the 1500m and 600m broken by Juno Sanders.*
*After a full day of competing Llywelyn won the cup! The day was full of fun and good sportsmanship and the activities promoted sports in the school as a whole. We would like to thank Miss Eleri Jones and Mr Aled Myrddin for organising the event and ensuring the day was a success.*
*We were all sad to learn it was Miss Eleri Jones, Mr Arwel Price and Mrs Thomas' last sports day in Ysgol Bro Ddyfi.*

***Sara Rees***



Cafwyd diwrnod llwyddiannus a thywydd braf ar gyfer Mabolgampau'r ysgol . Tŷ Llywelyn oedd yn fuddugol eleni ac fe dorrwyd 8 record

Ac enillwyd athletwyr y flwyddyn gan y canlynol:-

| | |
|---|---|
| Merched BL7 / Girls YR 7 | Toni Thomas |
| Bechgyn BL7 / Boys YR 7 | Rhys Jones |
| Merched BL8 / Girls YR 8 | Rhiannon Mills |
| Bechgyn BL8 / Boys YR 8 | Juno Saunders |
| Merched BL9 / Girls YR 9 | Fflur Jones |
| Bechgyn BL9 / Boys YR 9 | Meirion Jones Evans |
| Merched BL10 / Girls YR 10 | Sara Rees |
| Bechgyn BL10 / Boys YR 10 | James Ingleston |

# Mabolgampau 2013 / *Sports Day*




Llywelyn

Glyndwr

Dewi



# Gwobrwyo Haf 2013
# *Summer 2013 Merit Awards*

Llongyfarchiadau mawr i bawb lwyddodd i ennill 300 a 450 pwynt clod ond llongyfarchiadau arbennig i Megan Evans am ennill y wobr fawr eleni sef *iPad*! Da iawn ti!



*Congratulations to everyone who reached 300 and 450 merit points and huge congratulations to Megan Evans for winning the main prize: an iPad!*



# Home Access Plus+
## Access your school from Home

Mae modd i chi nawr weld eich ffeiliau ysgol pan fyddwch chi gartref. Ysgol Bro Ddyfi yw'r unig ysgol yng nghanolbarth a gogledd Cymru sydd yn defnyddio'r rhaglen yma. Mae ar gael i bob disgybl yn yr ysgol.

*It is now possible for you to see your school computer files at home. Ysgol Bro Ddyfi is the only school in Mid and North Wales that offers this service. It is possible for all pupils to access their files from home.*

# Sut i ddefnyddio Home Access Plus+

1. Yn gyntaf mae angen i chi fynd i wefan Ysgol Bro Ddyfi. www.broddyfi.co.uk. Yma mae angen clicio ar y linc sydd ar ochr dde'r sgrin.

   *First you need to go to the school website www.broddyfi.co.uk and click on the blue link on the right hand side . See the picture on the right.*







2. Bydd blwch yn ymddangos ar y sgrin fel yr un ar y chwith. Mi fydd angen i chi nawr lenwi'r bylchau gan roi eich enw a cyfrinair eich cyfrif ysgol a gwasgu ok.

*Next a box will appear on the screen like the one on the left. You will need to fill in the form with your school account details and click ok.*

3. Nawr mae'n bosib i chi glicio ar ***Browse My School Computer*** lle bydd hi'n bosib i chi weld eich ffolderi a'ch ffeiliau. Yno cewch ddewis rhwng eich ffolder chi, y ffolder ***Curriculum Pool*** neu ffolder y ***shared drive***.




*Now you can click on **Browse My School Computer** where it will be possible for you to access you files. Then you will be able to choose from your folder, the curriculum pool or the shared drive to download files.*




3. I lawr lwytho dogfen o'ch dewis mae angen clicio arni ddwywaith ac mi fydd hi'n bosib i chi ei gweld a'i newid.

*To download a document of your choice you can just click on it and it will be there for you to see and edit.*




3. Os am roi'r ddogfen nôl ar ***Home Access Plus*** er mwyn ei gweld ar system yr ysgol cliciwch gyda'ch bys de a dewiswch ***upload***.

*To upload your file back to the school system you must right click in the folder you wish to include the document and click **upload**.*

# Dyddiadau Pwysig
# Important Dates

| Beth / *What?* | Pryd/*When?* |
|---|---|
| Yr ysgol yn cau dros wyliau'r haf<br>*The school breaks for summer holidays* | 19/7/13 |
| Canlyniadau Safon Uwch ac Uwch Gyfranol<br>*A Level and AS Level Results* | 15/8/13 |
| Canlyniadau TGAU<br>*GCSE Results* | 22/8/12 |
| Cyfle i ddisgyblion Blwyddyn 11 a'u rhieni drafod dewisiadau ar gyfer y Chweched Dosbarth<br>9.00 - 3.30<br>*School open for Year 11 pupils and parents to discuss Sixth Form choices*<br>*9.00 – 3.30* | 23/8/12 |
| Diwrnod HMS (Dim Ysgol i blant)<br>*INSET Day (No School For Pupils)* | 2/9/13 |
| Tymor newydd yn dechrau i ddisgyblion<br>*New term begins for pupils* | 3/9/13 |

## Gwefan Pontio / *Transition Website*
www.Pontio.BroDdyfi.co.uk

Cofiwch am y **Wefan Pontio** ble ceir taith rithwir o'r ysgol. Dyma ffordd fuddiol o hwyluso'r broses o drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Dyma rai nodweddion y wefan:

- Llythyrau gan ddisgyblion presennol yr ysgol
- Map rhyngweithiol gan ddisgyblion yr ysgol
- 5X60
- Band YBD Rocers
- Galeri BL7
- Gwybodaeth am ddarllen ym Mro Ddyfi
- Gwybodaeth am ginio am ddim
- Manylion cyswllt yr ysgol

A llawer mwy!

Ewch i'r wefan www.Pontio.BroDdyfi.co.uk am fwy o wybodaeth

*Don't forget about the* ***Transition Website which contains*** *an interactive virtual tour of the school. The site will ease the transition from primary to secondary school.*

*Here are some of the features of the website:*

- *Letters from the pupils voicing their opinion about the school*
- *Interactive map of the school by the pupils*
- *5x60*
- *YBD Rockers Band*
- *Year 7 Gallery*
- *Information about reading at Bro Ddyfi*
- *Information about Free School Meals*
- *School contact details*

*And much, much more!*

*For more information, go to: www.Pontio.BroDdyfi.co.uk*



# Ysgol Goedwig / Forest Schools

Roedd fy amser yn yr Ysgol Goedwig yn addysgiadol iawn. Trwy wneud gemau a storïau ddysgais am anifeiliaid y coed a fy nghyfoedion. Wnes i hefyd ddysgu rhai pethau am goginio fel faint o amser mae'n gymryd i goginio llysiau a sut i wybod pan mae rhywbeth yn barod. Doedd e ddim jyst yn brofiad addysgiadol ond profiad hwylus a hapus, a chyfle i ddod i adanbod plant eraill yn well. Diolch i'r ysgol am ddarparu'r cyfle a gobeithio caf brofiadau tebyg yn y dyfodol.

Ffion D.

*The time I spent in the Forest School was very educational. By doing games and storys I learnt about the animals that live in the forest. I also learnt about cooking and how much time it takes to cook fruit and how to check if its ready. It was not just an educational experiance but a happy and entertaining experiance and an opportunity to get to know other young people. I would like to thank the school fot providing the opportunityand hope to get another chance to do something similar in the future.*

*Ffion D*







## Y Llyfrgell a'r Chweched Dosbarth

Braf yw cael nodi bod nifer uchel o ddisgyblion Blwyddyn 11 yn bwriadu dychwelyd i'r Chweched Dosbarth yma yn Ysgol Bro Ddyfi eto eleni. Mae rhai disgyblion o ysgolion cyfagos hefyd yn bwriadu dod yma i astudio yn y Chweched Dosbarth. Edrychwn ymlaen at groesawu pob un ohonyn nhw.

Mae'r llyfrgell yn parhau i fod yn un o gorneli brafiaf yr ysgol gan gynnig ardal tawel i'r disgyblion weithio ynddo yn ystod eu cyfnodau Astudo Annibynnol. Mae'n ardal delfrydol hefyd i weddill yr ysgol gael hogi eu sgiliau llythrennedd drwy fachu cornel dawel i ddarllen llyfr. Gellir manteisio ar y system newydd, eclipse.net hefyd, sef system ar-lein newydd i ymchwilio neu i ysgrifennu adolygiad ar lyfrau maent wedi eu darllen neu ddarganfod pa lyfrau sydd ar y rhestr 10 uchaf yr wythnos honno.



Yn ogystal â hyn gosodwyd gliniaduron yn y 'stafell gefn i'w defnyddio gan fyfyrwyr y Chweched Dosbarth yn eu gwersi ac yn ystod eu cyfnodau Astudio Annibynnol. Dyma gyfnodau buddiol sy'n rhoi'r rhyddid a'r adnoddau y mae myfyrwyr chweched dosbarth eu hangen i gyflawni eu gwaith yn llwyddiannus.

Mae'n bleser gweld y llyfrgell ar ei newydd wedd yn cael defnydd mor dda a braf oedd gweld blwyddyn 11 yn defnyddio eu cyfnod adolygu'n effeithiol yno hefyd.



## Sixth Form and the Library

*It is good to note that a high proportion of the current Year 11 pupils intend to continue their education here at Ysgol Bro Ddyfi. A significant number of pupils from nearby schools have also shown an interest in studying here. Every one of them is welcome.*

*Since knocking a wall down in the library, it's fair to say the library is probably by now one of the most pleasant corners in the school. The atmosphere is conducive to study; research and reading. Laptop computers with access to the school's network have been placed in the small room at the back and are used by Sixth Form Students during their independent study periods. Good use of space is being made. It's also nice to see younger pupils using this small room at the back of the library during break times and using the school's online library: eclipse.net where pupils can search and write reviews about their favourite books . The online library also shows what the top 10 books of the week are.*

*In addition to this it's good to see the computer room in the back of the library being used by our hard working sixth formers during their independent study time. The resources*





# Yr Adran Gwyddoniaeth
# The Science Department

Reddem  ni'n hapus iawn i gael yr hwyaid yma yn Ysgol Bro Ddyfi. Bu'r dosbarth Gwyddoniaeth Cymhwysol yn cadw'r chwiaid am ddau fis: yn eu bwydo nhw ac yn llnau eu cwt ac yn sicrhau fod ganddynt ddigon o ddŵr. Ond yn anffodus i ni, mae'r chwiaid wan wedi tyfu ac wedi mynd nôl i'w cynefin.

Roedd y prosiect hwn yn un llwyddiannus dros ben i Flwyddyn 12 a hefyd i wedill yr ysgol oedd yn mynd Iiweld y chwiaid pob amser egwyl acinio.

Charlie Alderton

*We were very honoured to have 3 ducklings spend some time here in Ysgol Bro Ddyfi. The year 12's Biology Applied Science kept the ducks for 2 months looking after them, feeding them, mucking them out, topping them up with water and taking them out for fresh air.*

*Unfortunately for us, now the ducks have grown, they have returned to their home.  The project was worthwhile for the year 12 students and the whole school enjoyed having them here.*

Charlie Alderton







# Yr Adran Ddaearyddiaeth / The Geography Department

Ar fore braf iawn aeth oeddeutu 25 o ddisgyblion TGAU Daearyddiaeth  ar daith hir a phoeth i Gaerdydd er mwyn casglu data ar gyfer eu hymchwiliadau  unigol TGAU.

Aethpwyd i sawl ran o'r ddinas, er mwyn cael gweld y trawsdoriad amrywiol o lefydd preswyl sydd yng Nghaerdydd. Yn gyntaf, cofnodwyd data yn Sain Ffagan, a gwelwyd tai a systemau atal lladron unigryw iawn sef gwydr wedi ei osod ar ben y waliau! Ymlaen wedyn i ardal Caerau, ble cafodd y disgyblion gyfle i holi 'r trigolion lleol am agosrwydd gwasanaethau fel Swyddfa Bost a Meddygfa gyfagos.

Erbyn hyn, roedd y  gwres wedi mynd yn llethol, a'r gyrrwr bws yn cyfaddef  bod y system oeri - *Air Conidtioning* wedi torri !!! Ond chwarae teg i bawb, bwrwyd ati i orffen gweddill y dasg, gan fynd i Despenser Place, Riverside, (a chael cipolwg sydyn o'r  Stadiwm gyfagos), ac i ddilyn draw i Landaf , cyn cyrraedd Tesco i gael cinio a seibiant a mwynhau system oeri a oedd yn gweithio ! Yn olaf, draw â ni at y Bae, gan weld Canolfan y Milenniwm yn ei ogoniant ar brynhawn braf iawn, a chwblhau un arolwg arall yn Adventurers Quay. Erbyn hyn roedd sawl un yn dechrau gwywo, felly penderfynwyd ei throi hi am adre a'r gwaith wedi ei gwblhau i safon uchel iawn. (Roedd sawl un hefyd angen mynd i barti – dwi 'n siawr cewch fwy o hanes hynny ryw dro eto!)

Hoffwn ddiolch yn fwar iawn i'r holl ddisgyblion am weithio yn galed o dan amgylchiadau anodd dros ben, ac i Miss Anwen Pughe Jones am fod ein "Tour Guide" ac i Mr Iolo Jones am ymuno gyda ni hefyd a chadw trefn ar bawb! (O ia: sori am achosi i'r larwm tân  ganu ar ôl dychwelyd i'r Ysgol !)

*Around 25 GCSE Geography students set off to Cardiff on  a hot and sultry  morning and  on a long journey to Cardiff to collect data for their Individual GCSE Geography Investigation.*

*Several areas of the city were visited in order to ensure the pupils saw a cross section of the different types of residential areas seen in a city.*
*The first area to be studied was Saint Ffagans where we saw  some very extreme types of Crime Prevention techniques such as glass shards placed along the top of a garden wall! We then went on to Caerau, where pupils were able to survey members of that community about the proxmiity of services to that area.*

*By now, the heat was becoming unbearable, and the bus driver admitted that the air conditioning system had broken down! Neverthless  everyone carried on regardless and we visited Despenser Place, Riverside (and  had a good view of the Millenium Stadium) and then on to Llandaff before reaching Tesco and a much welcomed  lunch break enjoyed in an air conditioned atmosphere!*

*Finally, we visited Cardiff Bay, and saw the Millenium Centre in its glory, before completing another survey in Adventurer's Quay. By now, several people were fwilting in the heat, so we boarded the bus after completing work that was of a very high standard.  (Some of us had a party to attend I'm sure you will hear more about that !)*
*I would like to thank all pupils who came on the field trip, working in very difficult conditions at times. Also many thanks to Miss Anwen Pughe Jones for being our Offical Tour Guide  and to Mr Iolo Jones for keeping everyone in order! (Oh yes: apologies for setting the alarm off when I returned back to school !)*





# Y Modiwl Iaith / The Language Module

Yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Gorffennaf, fel rhan o'u hastudiaethau ar gyfer Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, treuliodd myfyrwyr y Chweched Dosbarth dri diwrnod ym Mhrifysgol Aberystwyth yn dysgu ieithoedd newydd. Roedd hanner y myfyrwyr yn dysgu Sbaeneg a'r hanner arall yn dysgu Pwyleg. Canmolwyd sgiliau astudio'r myfyrwyr gan eu tiwtoriaid, Gabriele and Noemi, oedd yn eu hannog i barhau i astudio'r ieithoedd hyn.

Yn ystod y tridiau dysgodd y myfyrwyr rai o'r hanfodion wrth ddysgu iaith: yr wyddor, rhifau, cyfarchion ac ymadroddion elfennol eraill. Cawsant gyfle hefyd i ddysgu am ddiwylliannu'r gwledydd. Wedi'u harfogi gyda hyn oll daeth yr wythnos i uchafbwynt gyda chyflwyniadau grŵp i'w cyfoedion, athrawon, staff y brifysgol a rhieni. Cyflwynwyd tystysgrifau haeddiannol iawn i'r myfyrwyr gan y pennaeth, Mr Dafydd Jones a chan Linda Evans, cyfarwyddwr Partneriaeth Ymestyn yn Ehangach Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Dathlwyd eu llwyddinat gyda bwffe o fwydydd blasus o Sbaen, Gwlad Pŵyl a Chymru. Dymuna'r myfyrwyr ddiolch i'r rhaglen Ymestyn yn Ehangach am ariannu'r ddarpariaeth; y tiwtoriaid iaith am eu hysbrydoli i ddysgu ac i bennaeth y Chweched Dosbarth , Haf ap Robert am drefnu'r wythnos.

Calum Davies

*During the first week in July as part of the Welsh Baccalaureate Qualification, Sixth Form students spent three days at Aberystwyth University studying for their language module. This entailed learning either Spanish or Polish. The students' skills were praised by their tutors, Gabriele and Noemi, who added that they should continue to pursue their chosen language and that they would go on to great things in higher education.*

*The students were provided with the opportunity to learn the basics of a foreign language: letters, numbers, greetings and other basic phrases and were also introduced to the cultures of Spain & Poland. Armed with what they had learnt the week culminated with group presentations given to peers, teachers, university staff, and parents. Headteacher, Mr Dafydd Jones and Linda Evans, Director of the North & Mid Wales Reaching Wider Partnership then presented the students with well-earned certificates. The week's hard work was then celebrated with a buffet of Spanish, Polish and Welsh delicacies.*

*The school and the sixth form would like to thank the Reaching Wider programme for funding the whole project; the language tutors and the Head of Sixth Form, Haf ap Robert for all their organisational skills. This comes a week ahead of the Sixth Form's week of work experience, another requirement of the Welsh Baccalaureate Qualification to look forward to.*

*Calum Davies*









# Ystafell Dosbarth di-wifr
# Wireless Classroom

Mae'r canteen wedi cael 20 o liniaduron newydd. Mae cwpwrdd llawn ohonynt wrth ochr y soffas du yng nghornel yr ystafell. Mae fy nosbarth i wedi bod ar y laptops mewn gwers ac rydym ni'n gwybod o brofiad eu bod nhw'n gweithio'n dda ac yn gyflym.

Y rheswm dros fuddsoddi mewn gliniaduron yw i gael mwy o fynediad at dechnoleg. Mae'r ddwy ystafell TGCh yn llawn o hyd, ond, diolch i'r gliniaduron newydd dydy hynny ddim yn broblem dim mwy.

Erwan Jones

*The canteen has laptops! The cupboard is full of them by the black sofas in the room. My class has been on the laptops in lessons and we know from experience that they are very fast.*

*The reason for investing in laptops is to ensure more access to pupils to ICT resources. All too often the other 2 computer rooms were full but since the arrival of the new laptops, availability of laptops is no longer a problem.*

*Erwan Jones*





Follow

dilynwch ni ar twitter follow us on twitter

**Mae Ysgol Bro Ddyfi nawr ar twitter. Os hoffech wybod y newyddion diweddaraf o Ysgol Bro Ddyfi dilynwch ni ar twitter.**

*Ysgol Bro Ddyfi is now on twitter. If you would like to be informed of the latest news from Ysgol Bro Ddyfi follow us on twitter.*

LUMEN NOBIS SIT SCIENTIA

**twitter.com/broddyfi**

**@BroDdyfi**

# Y Chweched Dosbarth



Os oes diddordeb gyda chi mewn parhau â'ch astudiaethau yn y Chweched Dosbarth Ysgol Bro Ddyfi, mae'n bosibl lawrlwytho'r prosbectws oddi ar ein gwefan:
**www.broddyfi.co.uk**

*If you are interested in continuing your studies in the Sixth Form here at Ysgol Bro Ddyfi, you can download the prospectus from our website.*
***www.broddyfi.co.uk***



# Diwrnod Olaf Blwyddyn 13
## *Last Day for Year 13*

Ddydd Gwener 24 Mai Mehefin ffarweliwyd yn swyddogol â myfyrwyr Blwyddyn 13. Braf iawn oedd eu gweld nhw yn eu dillad gorau a gwell byth oedd mwynhau paned a chacen gyda nhw yn yr Asgell Ieuenctid amser egwyl. Roedd ambell un hyd yn oed wedi perswadio mynd i'r drafferth i goginio cacennau yn arbennig ar gyfer yr achlysur, a blasus iawn oedden nhw hefyd. Roedd yr awyrgylch yn un go arbennig fel y gellir gweld o'r lluniau a dynnwyd i gofnodi'rdiwrnod.

Fin nos cyfarfu pawb ym mwyty Baravin yn Aberystwyth ble dathlwyd diwedd cyfnod yn eu bywydau a rhannwyd ychydig eiriau o gyngor â'r myfyrwyr cyn iddynt wynebu eu harholiadau terfynol. Diwrnod da; blwyddyn dda! Pob lwc i chi Blwyddyn 13!

*On Friday 24 May June Year 13 attended their last day of school. It was a fine thing to see them in their smart clothes and even better to enjoy a cup of coffee and some home-made cake with them in the Youth Wing at break time. There was a lovely atmosphere which is captured in some of the photographs taken to mark the event.*

*In the evening everyone congregated at Baravin to celebrate the end of their school days and where some words of advice were offered before they sat their all-important final exams. Let's hope the advice was heeded! A good day; a good year! All the best Year 13!*










Cam 2
Cam 3







# Profiad Bagloriaeth Cymru
## *Welsh Baccalaureate Experience*

Ddydd Gwener 28 Mehefin treuliodd myfyrwyr y Chweched Dosbarth y diwrnod yn Aberystwyth yn ymweld â'r adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol yn y Brifysgol, Y Llyfrgell Genedlaethol a swyddfeydd Llywodraeth Cymru. Trefnwyd y diwrnod fel rhan o'u hastudiaethau ar gyfer y modiwl Cymru, Ewrop a'r Byd sydd yn rhan annatod o Gymhwyster Bagloriaeth Cymru.

Yn ystod y dydd cafodd rhai myfyrwyr gyfle i wrando ar ddarlith ddiddorol iawn ar y testun *Evolution or Revolution* a chafodd myfyrwyr eraill gyflwyniad i'r ddarpariaeth addysg uwch a geir yn yr adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Yn ogystal â hyn trefnwyd taith addysgol iddynt o'r Llyfrgell Genedlaethol dan arweiniad deheuig Nia Lewis sy'n gyn ddisgybl yn yr ysgol. Braf iawn oedd cael ei chwmni. Bythefnos cyn eu hymweliad cyflwynwyd tasg i'r myfyrwyr gan Sioned Haf Dyer, Swyddog Cyfathrebu i Lywodraeth Cymru.

Rhannwyd y myfyrwyr yn grwpiau a mabwysiadodd pob grŵp rôl un o weinidogion y llywodraeth. Yna roedd gofyn iddynt gytuno ar syniad ar gyfer deddfwriaeth newydd ac i baratoi cyflwyniad yn amlinellu eu syniadau.

Arddangosodd y myfyrwyr sgiliau penigamp wrth fynd i'r afael â'r dasg heriol hon gan brofi iddyn nhw eu hunain ac i staff o'u cwmpas eu bod nhw'n gallu cyfathrebu, gweithio gydag eraill ac ymchwilio i safon uchel iawn.
Roedd gofyn iddynt gyflwyno'u syniadau i'w gilydd ac i rai aelodau o staff Llywodraeth Cymru. Cafwyd cyflwyniadau amrywiol yn cynnwys cynnig i adeiladu rheilffordd rhwng Aberystwyth a Chaerdydd; darparu mwy o welyau ar gyfer ysbytai; rhaglen gynaliadwy ar gyfer ynni adnewyddol a lleihau'r nawdd a delir i S4C gan y llywodraeth. Mae'n braf cael nodi i'r cyflwyniadau wneud argraff ar y staff oedd yn bresennol a sicrhawyd y myfyrwyr y byddai eu syniadau yn cael eu trosglwyddo i'r gweinidogion go iawn yn swyddfeydd y llywodraeth. Diolch yn fawr iawn i Dewi Phillips, Swyddog Cyswllt Ysgolion a Cholegau Prifysgol Aberystwyth, am fod wedi trefnu'r diwrnod. Roedd yn brofiad gwerth ei gael i'r myfyrwyr.

Calum Davies

*On Friday the 28th of June, the Sixth Form students spent the day of visiting the International Politics Department at Aberystwyth University, the National Library of Wales and the Welsh Government Offices in Aberystwyth. The day was arranged as part of our work for the Wales, Europe and the World module for the Welsh Baccalaureate. We were given an informative tour of the National Library and attended a thought provoking lecture on nuclear war titled Evolution or Revolution.*




*Two weeks prior to our visit we had been charged with the task of representing a ministerial role and then presenting ideas for new policies to our peers as well as to staff at the Welsh Assembly Government offices. Some of the ideas included building a railway line from Aberystwyth to Cardiff Central via Carmarthen; supplying more hospital beds; pursuing a sustainable programme for renewable energy and the cutting of S4C government funding. We were given to understand that the Welsh Government staff were very impressed with the presentations who said they would pass on the ideas to ministers in actual Welsh Government office.*



*Calum Davies*








Roedd hi'n flwyddyn gofiadwy i Fro Ddyfi yn y maes Eisteddfodol eleni. Wedi llwyddiant yr Eisteddfodau Sir o safbwynt cystadlaethau llwyfan a Gwaith Cartref, roedd hi'n amser mentro am lwyfan y brifwyl yn Sir Benfro. Llongyfarchiadau i bawb am gyrraedd y brifwyl a braf gweld cymaint yn cael y cyfle unwaith eto eleni i wneud hynny. Llwyddodd rhai, serch hynny, i fentro ychydig ymhellach gyda Dylan, Ilan a Tristan ymysg y cyntaf i gynrychioli'r ysgol ar y llwyfan enwog hwnnw. Llongyfarchiadau i'r tri am eu hymdrechion canmoladwy wrth ganu plygain yn y gystadleuaeth Ensemble Lleisiol a'r 3ydd wobr yn dychwelyd i Fro Ddyfi eleni.

Y Parti Cerdd Dant oedd nesaf i blesio'r beirniaid a hwythau'n cipio'r wobr gyntaf – pa ysgol well i drafod gorchestion Glyndŵr na'r ysgol hon?

Llongyfarchiadau calonog i Gwawr Jones ar ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth Dawns Hip-Hop/Stryd/Disgo Bl 10 a dan 19 oed. Cystadeuaeth safonol tu hwnt a braf iawn oedd gweld Gwawr yn llwyddo yn y maes eto eleni.

Tro'r bechgyn oedd hi nesaf wrth i gystadlu'r dydd ddod i ben ym Mhenfro ar y dydd Gwener hwnnw yn y Côr Gwerin a hwythau hefyd yn dod a'r wobr gyntaf yn ôl i Fro Ddyfi.

Roedd canmoliaeth yn canu ar hyd y lle a phawb yn falch iawn o lwyddiannau ein disgyblion. Nid ar chwarae bach y mae ysgol fach fel Bro Ddyfi yn llwyddo i gystadlu yn erbyn ysgolion mawr en gwlad a braf iawn felly oedd croesawu dau wobr gyntaf i Fachynlleth o'r Urdd eleni. Mae ein dyled fel ysgol yn fawr i'r hyfforddeion am eu gwaith caled ac i'r disgyblion am eu hymroddiad diflino. Ymlaen i Feirionnydd flwyddyn nesaf!

*It was another memorable year for Bro Ddyfi in the world of the Eisteddfods. After the success of the county Eisteddfod on stage and in the field of literature and design and technology it was time to venture to Pembrokeshire to the National Urdd Eisteddod held at Boncath. Congratulations to everyone who managed to make it through to the National event and it was great to see so much doing so again this year. A massive achievement for any competitor is to make it onto the stage and it was fantastic to see Tristan, Ilan and Dylan leading by example and winning the 3rd prize for their vocal ensemble.*

*The Cerdd Dant group was next and they blew the judges away with their rendition – who better to sing about Owain Glyndŵr than pupils from Machynlleth? The 1st prize therefore returned to Bro Ddyfi this year.*

*Congratulations to Gwawr Jones for receiving the 3rd prize in the Street/Hiphop/Disco Dancing competition for under 19 year olds. Fantastic to see Gwawr achieving in this field yet again this year.*

*It was then the boys' turn to walk onto that big stage in the Folk Choir; every year was represented in the choir from year 7 to year 13 and it was great to see the boys trying their best. The pavilion erupted when it was announced that the boys also won the 1st prize.*

*A hugely successful year for Bro Ddyfi in the eisteddfod this year – taking so many top prizes home was no mean feat for such a small school but certainly a story which will stay in our memories for years to come. We are very proud of our pupils for their achievements and very grateful for the staff that helped the pupils to achieve their full potential. Onwards and upwards!*




EE 3G
08:04
99%
Tweet
Caryl Parry Jones
@carylparryjones
Llais grêt gan yr hogyn 'na o Gôr Bro Ddyfi! #ceiniogiswagro #urdd13
31/05/2013 17:01




Done
2 Likes










| | |
|---|---|
| Dawns Grŵp<br>hip hop/stryd/disgo Bl 7 – 9 | **2ail** |
| Dawns Unigol<br>hip hop/stryd/disgo Bl 10 + | 1af Gwawr Jones |
| Dawns Unigol<br>hip hop/stryd/disgo Bl10 + | 2ail Lliwen Jones |

Llongyfarchiadau i bawb fu’n cystadlu yn yr Eisteddfod Ddawns Eleni. Aeth Gwawr a Lliwen ymlaen i gynrychioli’r Sir yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd. Llongyfarchiadau i Gwawr Jones ar ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth Dawns Hip Hop/stryd/disgo i Flynyddoedd 10 -13





# Celf a Chrefft yr Urdd



Braf gweld cymaint o ddisgyblion Bro Ddyfi yn cyrraedd y brig yng nghystadlaethau Celf a Chrefft yr Urdd eleni unwaith eto.

Yn fuddugol yn y Sir eleni oedd Aur Bleddyn (Lluniadu 2D), Ffion Davies (Gwaith Creadigol 2D), Aron Hyddgen Jones (Lluniadu 2D), Ffion Davies (Gwehyddu), Steffan Hywel Williams (Print Monocrom), Elin Evans (CAD, CAD/CAM & Celf dan 19). Yn llawn haeddu canmoliaeth hefyd eleni yn y Sir y mae Erwan Powys Jones, Ellie Crowley, Maise Sandells ac Ilan Jones.



Yn dilyn eu llwyddiant yn y Sir aeth y buddugwyr ymlaen i gystadlu ar lefel genedlaethol. Braf iawn yw canmol y rhai a ddaeth i'r brig yma hefyd. Daeth Ffion Davies o Flwyddyn 7 yn gyntaf am Wehyddu (oedran Blwyddyn 7 – 9), Ilan Jones yn ail am waith CAD (dan 19 oed) a daeth Elin Evans yn drydydd yn yr un gystadleuaeth. Daeth Elin Evans hefyd yn 3ydd am waith CAD/CAM.

Cafodd gwaith y buddugwyr ei arddangos ar Faes yr Eisteddfod eleni yn Sir Benfro.

Radio Bro Ddyfi

'Yn FYW!'

'On AIR!'





















Mae Radio Bro Ddyfi wedi ei sefydlu ers blwyddyn gyfan bellach a braf yw cyhoeddi fod y fenter yn llwyddiant ysgubol.

Nod y Radio ydy rhoi cyfleoedd i'r disgyblion hogi nifer o sgiliau drwy greu rhaglenni amrywiol i'w darlledu yn ystod amser egwyl neu amser cinio.

Llwyddodd rhai adrannau hefyd i ddefnyddio Radio Bro Ddyfi i greu *Podcasts* adolygu ar gyfer arholiadau sydd arlein.



Agorwyd yr orsaf radio yn swyddogol gan Hywel Gwynfryn o BBC Radio Cymru. Cafwyd cyfweliad gyda rhai o ferched Bl 7 ar y diwrnod y daeth y Fflam Olympaidd i Fachynlleth. Mae modd gwrando ar y cyfweliad hwn drwy ei lawrlwytho fel *Podcast* o'r we.

Yn wir mae'r disgyblion yn mwynhau creu rhaglenni bywiog yn eu gwersi ac yn y Clwb TGCh. Mae'r rhaglenni yma wedi cael eu rhoi yn fyw ar ein gwefan trwy eu *podcastio* ar:

**www.Radio.BroDdyfi.co.uk**

*Radio Bro Ddyfi has been running now for a whole year and has been a huge success.*

*The aim of the Radio is to give pupils the opportunity to broadcast music and the news but also to promote the Welsh language within the school.*

*Departments have also been successful in using the radio to create revision podcasts for their exams.*

*The radio was officially opened by Hywel Gwynfryn of BBC Radio Cymru. Hywel interviewed a group of girls in Year 7 during the Olympic Flame procession. You can hear this interview by downloading it from our Podcast site.*

*It's lovely to see all the pupils enjoying making lively shows. These programmes have been uploaded live on to our website by podcasts and can be downloaded at:*

***www.Radio.BroDdyfi.co.uk***

**Y SGRIN FAWR - FfILM BRO DDYFI**

Mae Film Club yr Ysgol yn dangos ffilmiau b'nawn Gwener am 3.30y.p yn rhad ac am ddim i ddigyblion yr Ysgol. Mae system sain da a chewch weld y fflimiau ar sgrin FAWR. Yn ddiweddar trefnwyd gweithdy Adolygu Ffilm gyda Hywel Williams, a gobeithiwn am fwy o weithgareddau tebyg yn y dyfodol. Isod ceir rhestr o ffilmiau yr hanner tymor hwn. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymaelodi â Ffilm Bro Ddyfi a dewis y ffilmiau, cysylltwch â Mr Nic Ros.

- Hellboy (21.06.13)
- Life of Pi (28.06.13)
- Madagascar 3 (05.07.13)
- Marvel Avengers Assemble (12.07.13)

***FfILM BRO DDYFI – THE BIG SCREEN***

*The School's Film Club shows films at 3.30 on Friday afternoons, and costs absolutely nothing for pupils. The school has a good sound system and you can see the films on a BIG screen. Recently there was a Film Reviewing Workshop run by Hywel Williams, and we hope for many more such events courtesy of Film Club Cymru. Below are a list of films for this half term. If you are interested in joining Ffilm Bro Ddyfi and choosing films, please contact Mr Nic Ros.*

- *Hellboy (21.06.13)*
- *Life of Pi (28.06.13)*
- *Madagascar 3 (05.07.13)*
- *Marvel Avengers Assemble (12.07.13)*

# Taith Glan-llyn / Glan-llyn Trip

Ar Fehefin 28ain ymunodd criw o ysgolion cynradd yr ardal â ni yn Ysgol Bro Ddyfi ar drip i Glan-llyn i chwarae bowlio deg a chael bwyd. Aeth 12 o Ysgol Bro Ddyfi ac 18 o'r ysgolion eraill.
Cawsom lawer o hwyl yn chwarae bowlio deg. Roedd Miss Catrin Jones yn dipyn o gampwraig yn chwarae! Cafodd pawb sosej a sglodion cyn mynd adref ar y bws. Roedd pawb wedi blino'r lân erbyn cyrraedd n'ôl ym Machynlleth, ond cafodd pawb amser da.

Ffion, Ffion H.

*On the 28th June a group of local primary school children joined us on a trip to Glan-llyn to play ten pin bowling and eat!*

*We had a lot of fun playing and Miss Catrin Jones was very competitive in her playing !*

*Everyone had sausage and chips before we went home on the bus. Everyone was very tired after arriving back in Machynlleth, but everyone had a brilliant time.*

*Ffion, Ffion H.*

# Cwrs - Phoenix - Course 2013



Bu rhai o ddisgyblion Ysgol Bro Ddyfi, wrthi'n brysur yn cwblhau'r cwrs hyfforddiant Phoenix yn ddiweddar.

Cwblhawyd y cwrs gyda pharêd arbennig o dda a chafwyd cyfle i fwynhau yng nghwmni eu ffrindiau a'u teuluoedd. Cyflwynwyd tystysgrifiau iddynt i glodfori eu llwyddiant.

Llongyfarchiadau i'r criw am weithio mor galed a diolch hefyd i'r frigad dân am eu hamser. Mae'r disgyblion a'r ysgol yn gwerthfawrogi'r cyfle arbennig a ddarparwyd iddynt.



*Pupils at Ysgol Bro Ddyfi, Machynlleth, have successfully completed the Phoenix Course training programme.*

*The youngsters ended the course with an impressive parade which was enjoyed by friends and family, before being presented with certificates.*

*The school is very proud of their achievement, and wish to thank the Mid and West Wales Fire and Rescue Service, and its team of fire -fighters who worked with the pupils. The school and the pupils are very grateful for this fantastic opportunity.*





# Wythnos Pontio
# Transition Week

Dros gyfnod o dri diwrnod mwynhaodd Blwyddyn Chwech o bum ysgol leol gyfnod yn Ysgol Bro Ddyfi. Cafodd y disgyblion gyfleoedd di-ri yn cynnwys rhai profiadau diwrnod arferol yn yr ysgol uwchradd, ynghyd â helfa drysor a gweithgareddau yn arwain at gwis rhifedd. Ar Ddydd Iau'r 4ydd o Orffennaf cafodd y disgyblion ddiwrnod llawn o weithgareddau chwaraeon 5x60, yn amrywio o rygbi i hoci, tenis i bêl-fasged. Yn ôl y disgyblion y diwrnod chwaraeon 5x60 oedd y peth wnaethon nhw fwynhau fwyaf gyda gwers technoleg yn ail agos.

Diolch i holl staff a ddisgyblion yr ysgol am eu hymroddiad i lwyddiant y cyfnod trosglwyddo.

Miss Catrin Jones

*Over the course of 3 days Year 6 pupils from 5 local schools enjoyed their time at Ysgol Bro Ddyfi with a range of exciting experiences to give them a taste of what to expect in September. The thee days included a literacy treasure hunt and a numeracy quiz and games activities. On Thursday the 4th of July the pupils got a full day of 5x60 activities. These ranged from rugby, hockey, tennis and basket ball. In their evaluation the pupils said that the 5x60 activities were the most enjoyable events followed very closely with the technology lessons in second place.*

*Thanks again to all the staff and pupils in the school for their hard work in making the annual transition week such a success once again!*

*Miss Catrin Jones*














@BroDdyfi

# Rhifedd / Numeracy

Er mwyn helpu codi safonau rhifedd Ysgol Bro Ddyfi rydym yn gosod Cwestiwn Rhif yr wythnos. Pob wythnos mae gwestiwn rhif newydd yn cael ei gyflwyno ar y Wal Rhif (tu allan i ddrws y gampfa). Dyma esiampl o gwestiwn rhif yr wythnos:

*To help raise the standards of numeracy at Ysgol Bro Ddyfi we set a Numeracy Question of the week. Each week a new numeracy question is presented on the numeracy wall (outside the door to the gym). Here is an example of a numeracy question of the week:*




Mae croeso i bob disgybl gymryd rhan ac mae yna wobr ar gael i'r disgybl sydd yn ateb y mwyaf o'r cwestiynau yn gywir bob hanner tymor. Er mwyn cymryd rhan, yn syml darllenwch y cwestiwn, ysgrifennwch yr ateb ar *bost-it (*sydd ar gael tu allan i ystafell y pennaeth) ac yna postiwch y *post-it* gyda'ch ateb a'ch enw yn y Bocs Rhifedd a Llythrennedd.




*Every pupil is welcome to take part and there will be a prize given to the pupils who receives the most correct answers during each half term. In order to take part, simply read the question, write the answer on the post-it outside the head teacher's office and post the post-it with the answer and your name in the Numeracy and Literacy Box (shown here.)*

Gwefannau ac Apps defnyddiol i ddatblygu sgiliau rhif

Useful websites and Apps to develop numeracy skills

Bedtime Math (gwefan)
Brainist Math Games (gwefan)
Dyma rai o'r Apps rydym yn defnyddio yn yr ysgol i ddatblygu sgiliau rhif

Bedtime Math (website)
Brainist Math Games (website)
These are some of the Apps we use at school to develop numeracy skills




Fred Perry oedd y dyn Prydeinig diwethaf i ennill Wimbledon yn 1936. Faint o flynyddoedd yn ôl oedd hynny?

Ateb =

Fred Perry was the last British male winner of Wimbledon in 1936. How many years ago was this?

Answer =

Y flwyddyn ddiwethaf defnyddiwyd 54,250 o beli tennis mewn 660 o gemau dros 13 diwrnod mewn 14 cystadleuaeth Wimbledon. Ar gyfartaledd faint o beli a ddefnyddiwyd pob gem?

Ateb =



Last year 54,250 tennis balls were used in 660 games over 13 days in 14 Wimbledon events. On average how many tennis balls where used per match?

Answer =

# “Apps” er mwyn datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd

Mae llawer iawn o ddisgyblion bellach gyda ffonau symudol a thabledi digidol. Mae’r disgyblion sydd gydag ipod Touch, ipad, ffonau HTC a ffonau eraill sy’n rhedeg systemau Android a thabledi gyda mynediad i Apps sy’n gwneud datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn hwyl, ac yn brofiad llwyddiannus. Fel ysgol, rydym yn annog disgyblion i roi tro ar roi rhai o’r Apps hyn ar eu ffonau a’u tabledi ac i dreulio ychydig o amser yn gyson yn ystod y gwyliau (a thymor yr ysgol) yn ymarfer a datblygu eu sgiliau. Dyma gasgliad o Apps (am ddim a rhai mae’n rhaid talu amdanynt) yr awgrymir fel rhai da i’w defnyddio, er mae miloedd ar gael ar y we, ac mae rhai newydd yn cael eu cyhoeddi’n gyson, felly mae’n werth edrych ar **itunes** a **Google Play** i weld beth sydd ar gael yn y meysydd hyn yn achlysurol.

## ipad ac ipod touch/iphone

### Llythrennedd

Pearson Grammarprep - £2.49 yr un (10 app i gyd)

Dyma gasgliad o bosau sy’n targedu agweddau gwahanol o gramadeg. Mae ffocws ar agweddau amrywiol o ramadeg Saesneg yn cynnwys lle i osod priflythyren, sut i atalnodi, sut i ddefnyddio geiriau’n gywir. Er gwaetha’r gôst, mae’r apps hyn yn safonol ac yn heriol, ac yn targedu disgyblion 11 -18 mlwydd oed ynghyd ag oedolion.




Pearson Readingprep - £1.99 yr un (7 app i gyd)

Mae cwmni Pearson hefyd wedi datblygu posau sy’n targedu sgiliau darllen Saesneg disgyblion. Maent yn targedu agweddau megis awgrymiadau, geirfa addas a threfn darnau darllen, ac eto yn heriol ac yn targedu disgyblion 11-18 mlwydd oed ynghyd ag oedolion.

SAT vocab cards – am ddim

Dull o ddysgu geirfa sy’n gallu bod yn heriol ar ffurf cardiau fflach ac wrth eu clywed. Mae geirfa goeth yn sicr yn ddull o arddangos sgiliau llythrennedd safonol. Fel rhan o’r app, mae cwis lle gellir mesur pa mor dda ydych chi’n deall y geiriau.

Book Creator for ipad - £2.99

App sydd yn caniatau unigolyn i greu a dylunio llyfr. Mae’n gwneud y broses yn hwyl, ac yn arwain at ddatblygu sgiliau ysgrifennu.

Miss Spell’s Class – am ddim

Mae hwn yn targedu sgiliau sillafu disgyblion ac wedi dewis geiriau mae pobl yn ei chael fwyaf anodd i’w sillafu. Mae’n app poblogaidd iawn, ond dylid pwysleisio bod ambell air wedi eu sillafu yn y ffurf Americanaidd.




### Rhifedd

Mathboard - £2.99

Dyma app sy’n targedu sgiliau adio, tynnu, lluosi a rhannu disgyblion. Wrth ymarfer y sgiliau hyn yn gyson, mae’r dysgwr yn datblygu sail fathemategol gadarn.

King of Maths – am ddim

App arall sydd yn ffocysu ar ddatblygu sgiliau adio, tynnu, lluosi a rhannu disgyblion. Mae’n annog disgyblion i feddwl yn gyflym wrth ymdrin a rhifau.



Symmetry Shuffle - £1.49



Dyma gyfle i'r dysgwr ddatrys problem sydd yn fwy heriol nag a ddisgwylid ar yr olwg gyntaf. Mae'n hwyl ac mae'n gwneud i'r defnyddiwr feddwl. Mae hefyd yn datblygu sgiliau cymesuredd y defnyddiwr.

Math Ref - £0.69

Dyma gasgliad o dros 1,000 o fformiwlau Mathemategol gwahanol. Mae hefyd yn cynnwys y tabl elfennau ac yn gallu trosi gwerthoedd.

## Android

**Llythrennedd**

1800 English Grammar Questions – am ddim

Y dasg yw i gael atebion gramadegol gywir i'r cwestiynau a ofynir sy'n cael eu gosod fel profion o 5 cwestiwn. Yr her yw i gael cyfres o 3 prawf cwbwl gywir.

English Grammar tests – am ddim

Eto, cyfres o brofion, ond mae'r app yma hefyd yn cynnwys geiriadur ac adnoddau ieithyddol eraill.

Miss Spell's Class – am ddim

Mae hwn yn targedu sgiliau sillafu disgyblion ac wedi dewis geiriau mae pobl yn ei chael fwyaf anodd i'w sillafu. Mae'n app poblogaidd iawn, ond dylid pwysleisio bod ambell air wedi eu sillafu yn y ffurf Americanaidd.

Spelling Words Matching Game – am ddim

Gem arall yn canolbwyntio ar sillafu cywir.

English Reading Comprehension – am ddim

Dyma app sy'n targedu datblygu sgiliau darllen a deall. Mae hon yn sgil allweddol mae disgyblion angen bod yn gallu ei gwneud mewn arholiadau ac yn sgil allweddol sydd ei hangen ar gyfer dysgu gydol oes.

**Rhifedd**



Math Attack – am ddim

Gemau rhif adio, tynnu, lluosi, rhannu a sgwario. Dull da o wneud mathemateg ac ymdrin a rhifau yn hawdd.



iMath Whizz – am ddim

Gêm arall sydd ar 6 lefel gwahanol ac sydd yn targedu ymdrin a rhifau wrth wneud symiau adio, tynnu, lluosi a rhannu.

Math Workout – am ddim

Wrth wneud un ymarfer yn ddyddiol o 50 cwestiwn rhif, mae hyn yn ddull effeithiol o ddatblygu sgiliau rhif ac o ymarfer y meddwl.

Math Ref - £0.62

Casgliad o fformiwlau mathemategol a gwyddonol.

Mental Maths - £0.79

Casgliad o driciau i ddatrys a chyfrifo symiau Mathemategol mwy cymleth.

**Mae treulio hanner awr yn ddyddiol yn ymarfer sicr o gad-arnhau sgiliau llythrennedd a rhifedd y dysgwr.**

# *Apps to develop literacy and numeracy skills*

*Many pupils by now have access to mobile phones and digital tablets. The pupils who have access to an ipod Touch, ipad, iphone, HTC phones and other Android phones and tablets have access to apps which make developing literacy and numeracy skills to be fun, and to be a successful learning experience. As a school, we are encouraging our pupils to put some of these apps on their phones and tablets and to spend some time on a consistent basis over the forthcoming holidays to practise and develop their skills. Below, some free apps and some which have to be paid for apps are suggested as ones which are good to use, although thousands of apps are available on the internet, and new apps are published all the time, therefore it is worth visiting **itunes** or **Google Play** from time to time to see what is available.*

***ipad and ipod touch/iphone***

***Literacy***

*Pearson Grammarprep - £2.49 each (10 apps in total)*

*This is a collection of puzzles targeting various English grammatical aspects including where to place a capital letter, how to punctuate, and how to use words appropriately. Although they are quite expensive, these apps are quite challenging for 11-18 year olds and adults.*




*Pearson Readingprep - £1.99 each (7 apps in total)*

*Pearson have also developed an app that targets the reading skills of learners. They target various aspects including inference, appropriate words, and organisation of reading material, and these are again quite challenging and are appropriate to 11-18 year olds as well as adults.*

*SAT vocab cards – free*

*A method of learning words which can be quite challenging using flash cards and there is audio as well. A rich variety of vocabulary is a sure way of exhibiting literacy skills of a high standard. As part of the app, there is a quiz where it is possible to measure how well the words are understood.*

*Book Creator for ipad - £2.99*

*An app which allows individuals to create and design a book. This can be a process which is fun and allows pupils to develop their writing skills.*

*Miss Spell's Class – free*

*This app targets the spelling skills of learners and focuses on the words people have most difficult in spelling. It is a very popular app, but it must be stressed that some words are spelt using the American form.*




***Numeracy***

*Mathboard - £2.99*

*This is an app which targets addition, subtraction, division and multiplication. By practising these skills regularly, learners develop a solid mathematical foundation.*

*King of Maths – free*

*Another app which targets addition, subtraction, division and multiplication. It encourages learners to think quickly when dealing with numbers.*



*Symmetry Shuffle - £1.49*

*This app focuses on symmetry. It is a problem-solving app and is more challenging than usually perceived when starting to use the app. It is fun and makes the user think.*



*Math Ref - £0.69*

*This is a collection of more than 1,000 mathematical and scientific formulae. It can also convert values.*

## ***Android***

### ***Literacy***

*1800 English Grammar Questions – free*

*The task is to answer questions using grammatically correct language. Questions are set as tests of 5 questions. The challenge is to answer correctly 3/3 consecutive tests.*

*English Grammar tests – free*

*Again, a series of tests, and this app also includes a dictionary and other language resources.*

*Miss Spell's Class – free*

*This app targets the spelling skills of learners and focuses on the words people have most difficult in spelling. It is a very popular app, but it must be stressed that some words are spelt using the American form.*

*Spelling Words Matching Game – free*

*Another game concentrating on correct spelling.*

*English Reading Comprehension – free*

*This an app that targets reading and comprehension skills. This is a key skill that learners need to be able to do in examinations and is a skill needed throughout their lives.*

### ***Numeracy***



*Math Attack – free*

*Nuemracy games targeting addition, subtraction, division, multiplication and squaring of numbers. A good method of making it easy to deal with numbers.*



*iMath Whizz – free*

*Another game at 6 different levels and targets addition, subtraction, division and multiplication.*

*Math Workout – free*

*By completing one exercise of 50 number questions daily, this is a good method of developing number skills and of exercising the brain.*

*Math Ref - £0.62*

*A collection of mathematical and scientific formulae.*

*Mental Maths - £0.79*

*A collection of tricks to solve and calculate more complex mathematical sums and problems.*

**Half an hour daily practising literacy and numeracy skills will contribute significantly to strengthening the learners skills.**




# Adran Addysg Gorfforol

**Pêl –rwyd**
Mae 3 tîm o'r ysgol wedi bod yn chwarae yng nghyngrair pêl rwyd oedolion yng Nghanolfan Hamdden Bro ddyfi bob nos Iau.

Dau dîm o Bl. 11 ac un tîm o Flwyddyn 12/13

Daeth y tîm blwyddyn 12/13 yn ail yn y gyngrair ac ennill y *round robin'* a chafodd Gwawr Jones Bl.11 ei henwi yn chwaraewr y gyngrair.

- Gemau yn erbyn Tywyn

| | |
|---|---|
| Tîm Bl 11 | Bro Ddyfi 15 Tywyn 2 |
| Tîm Bl 10 | Bro Ddyfi 13 Tywyn 6 |

**Montgomeryshire Sports Award**
Cafodd Anna Hennighan yr ail wobr yn y category *Young Sports Leader of the Year*
**Pêl-droed**
Merched U16 vs Dolgellau ennill 2-1
Merched U14 vs Dolgellau Tywyn colli

**Rygbi**
U14- wedi curo John Bright
Twrnament 10 bob ochr bl 7 a 8 wedi ei ohririo oherwydd y tywydd
Twrnament 7 bob ochr, wedi curo pob gêm, ond oherwydd tywydd ac amser heb allu gorffen y twrnament

**Llysgenhadon**
Cwrs Llysgenhadon 5x60 – James Ingleston a Keiran Jones

**Pêl droed yr urdd twrnament Cenedlaethol**

Chwaraeodd dau dîm o fechgyn a dau dîm o ferched o flynyddoedd 7 – 10 yn y twrnament yn Aberystwyth

**Athletau Powys**

Fflur Jones Bl.9 Taflu Pwysau 1af.
Bydd Fflur yn mynd ymlaen i gystadlu yng ngemau Cymru yng Nghaerdydd yn mis Gorffennaf.
Cafodd nifer o ddisgyblion 2ail a 3ydd yn y yr athletau mewn gwahanol gampau.

**Athletau Cymru**

Llongyfarchiadau i Fflur Jones Blwyddyn 9 a Anna Hennighan Blwyddyn 13 am gynrychioli Powys yn athletau Cymru yng Nghaerdydd ar Gorffennaf 6ed.

Fflur Jones: Taflu pwysau a disgen (merched iau)

Anna Hennighan: Taflu Pwysau (merched hŷn)

<u>Wythnos Weithgareddau: Menter 2013</u>

<u>*Activities Week: Menter 2013*</u>

**Fel rhan o'r wythnos weithgareddau** rhoddwyd y cyfle i ddisgyblion Bl. 9 fynd ati i gychwyn cwmni Menter er mwyn gwerthu cynhyrchion. Roedd rhaid **gweithio fel tîm i greu cynnyrch ar gyfer** diogelwch ar y we. Roedd pob grŵp **wedi gweithio'n hynod o galed drwy** gydol yr wythnos a llwyddwyd i wneud elw a fydd yn cael ei gyflwyno i elusen y flwyddyn. Ewch ar wefan Menter i gael **blas o'u gwaith!**

*As part of activities week pupils in Year 9 formed their own company to sell items based on the theme of internet safety. Every group succeeded to make a profit which will be given the schools charity of the year. Their work can be viewed on the* ***Menter*** *website.*




1) www.broddyfi.co.uk ›
2) Ein Hysgol / Our School ›
3) Menter






@BroDdyfi




# Llythrennedd

Mae hi wedi bod yn flwyddyn allweddol ar gyfer dablygu strategaethau llythrennedd ym Mro Ddyfi eleni.  Gweithwyd yn galed i sicrhau ein bod yn gweithio tuag at achredu sgiliau Cyfathrebu Lefel 2 gyda disgyblion Bl.8-11 ac achredu Lefel 3 gyda myfyrwyr y chweched dosbarth. Dyma gymhwyster hynod o ddefnyddiol i'n disgyblion ni.

Bu ffocws benodol ar ddarllen eleni gan sicrhau bod pob bore Mawrth yn fore darllen. Ein bwriad yw ymestyn hynny fel bod dydd Mawrth yn ddiwrnod darllen. Pe na bai gan eich plentyn waith cartref ar nos Fawrth, dylid eu hatgoffa mai diwrnod darllen yw dydd Mawrth a'u hannog i ddarllen eu llyfrau llyfrgell neu unrhyw ddefnydd addas arall. Dosbarthwyd llyfryn terminoleg i bawb yn CA3 gyda disyblion Bl 7-9 yn derbyn llyfryn dwyieithog yn llawn termau addysgol i bob pwnc i'w defnyddio yn eu gwersi'n feunyddiol. Bydd disgyblion Bl. 7 ac 8 yn derbyn profion sillafu wythnosol ar y termau hyn.

Rydym yn gyffredinol hapus gydag ymdrechion ein disgyblion yn y Profion Darllen Cenedlae-thol ac yn benderfynol o barhau i gynnal a chodi safonau llythrennedd ein disgyblion yn y flwyddyn sydd i ddod.

Ym mis Medi bydd pob disgybl yn derbyn Ffeiloiaith; llyfryn ieithyddol yw hwn sydd wedi ei anelu at godi safonau'r Gymraeg ymysg ein disgyblion. Bydd y llyfryn hwn yn llawn rheolau ieithyddol a gwybodaeth ddefnyddiol ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn gywir ac yn effeithiol. Bydd llyfryn tebyg yn cael ei ddosbarthu i rieni nad ydynt mor hyderus yn eu defnydd personol o'r Gymraeg.

*It has been an essential year for developing literacy skills at the school this year. Pupils and staff worked tirelessly to ensure that pupils in Year 8-11 are working towards accreditation at Level 2 in Communication and sixth form students are accredited at Level 3. This is a useful qualification for our students.*

*Reading was one of our main foci this year; Tuesday Pastoral sessions are allocated for reading and it is our aim is to further develop this so that Tuesdays are reading days. If your child has no homework on Tuesday evenings then why not remind them that Tuesdays are reading days and encourage them to read their library books or any other appropriate reading material.*

*A Terminology Booklet was produced for KS3 pupils which is full of key educational terminology that should be used in every lesson. Year 7 and 8 pupils will receive a weekly spelling test based on these terminology booklets.*

*We were proud with the effort our pupils made in the National Reading Tests and we will work tirelessly to ensure standards are further increased during the next year.*

*In September pupils will be given a Welsh Language and Grammar booklet which aims to further develop the rectitude of the Welsh language across the curriculum.  A similar booklet will be given to parents who are not as confident in their own use of the language and who wish to develop their linguistic skills.*

# Y Gynhadledd Fawr

Braint oedd cael derbyn gwahoddiad i fynychu'r Gynhadledd Fawr yn Aberystwyth ar y 4ydd o Orffennaf gyda Lleu Bleddyn, Elin Evans a Mrs Haf ap Robert. Pwrpas y gynhadledd oedd trafod dyfodol yr iaith Gymraeg yn dilyn canlyniadau siomedig Cyfrifiad 2011. Roedd y Prif Weinidog, Carwyn Jones, yn bresennol, ac ymhlith gwleidyddion eraill pwysig oedd Meri Huws, Comisiynydd yr Iaith a Dyfed Edwards, arweinydd Cyngor Sir Gwynedd. Rhannwyd y diwrnod yn ddau ran.

Yn gyntaf roedd rhaid i ni drafod effaith yr economi ar yr iaith a sut mae datblygiadau tai a swyddi yn effeithio ar ddefnydd a statws yr iaith. Ar ôl cinio, y pwnc llosg oedd sut mae'r Gymraeg yn cael ei defnyddio yn y gymdeithas, yn benodol ymysg pobl ifanc. Roedd siawns wedyn i ofyn cwestiynau i'r panel ac roedd hi'n ddiddorol iawn cael gweld sut roedd gwleidyddion yn ymateb i gwestiynau heriol yn y fan a'r lle.

Roedd y diwrnod yn un diddorol dros ben ac yn bendant yn agoriad llygad. Llwyddodd i'n gwneud ni yn llawer mwy ymwybodol o statws yr iaith a beth sydd angen i ni ei wneud i sicrhau ei bod hi'n goroesi.

Marged Jones
Blwyddyn 12






**YSGOL BRO DDYFI**
Tel: (01654 70 2012)
Ffacs: (01654 70 2994)
E-bost: office@broddyfi-hs.powys.sch.uk
Gwefan: www.broddyfi.co.uk

PENNAETH: Mr D. M. B. Jones. B.A.